# CAN NEWYDD,

YN RHODDI HANES AM

*Y modd dychrynllyd y darfu i JOHN SIMS Ladd ANNE PALMER, yn agos i dref Stafford, ar nos Sul y 23ain o Ragfyr, 1832, yr hwn sydd yn bresennol yn y Carchar yn Stafford, yn aros am ddydd ei dreial.*

GAN EDWARD JONES.

YR wyf am draethu i chwi ganiad,
Unwaith eto os caf genad,
Gobeithio bydd yn rhybudd i chwi,
Bawb i gilio o ffyrdd drygioni.

2 Mewn llawer modd mae'r twyllwr creulon,
Yn tynu i'w rwydau feibion dynion,
Mae'r hanes a adroddaf i chwi,
Yn gwaeddi'n uchel arnom sobri.

3 'Roedd mab a merch o fewn i Stafford,
Yn byw er's llawer blwyddyn hynod,
A rhai'n oedd wedi gwneuthur amod,
Cyn pen y mis i fyn'd yn briod.

4 Ond cofiwch hyn y Cymry firion,
Mae malais ddrwg oedd yn ei galon,
A'i feddwl oedd, fel cewch chwi glywed,
I fod yn angau i'r ferch ddiniwed.

603
X20523022 8

5 Gofynodd ef i'r ferch fwyneiddgu,
A ddo'i nos Sul i wel'd ei theulu,
A hithau ddywedodd os ca'i genad,
Ei bod yn foddlon iawn i ddyfod.

6 Prydnhawn dydd Sul gofynai'r lodes
A rowch chwi genad i mi Meistres,
I fyn'd adre' i wel'd fy nheulu,
Mi ddof yn ol y boreu foru.

7 A'i Mheistres a ddyweda'n union,
Y mae yn hwyr a'r llwybrau'n groesion,
A hithau a ddywedodd wrthi,
Y mae genyf i gwmpeini.

8 Y ferch gychwynai'n heinif hynod,
A'r mab ar fyr ddoe i'w chyfarfod,
Ac ar ol cerdded pedair milldir,
Fe aeth a'r ferch ymhell o'r llwybr.

9 Yr eneth wen ddywedai'n sicr,
Yr y'm ni wedi colli'r llwybr,
Mae'n well ini droi'n ein holau,
Nid awn i byth i ben ein siwrnai.

10 A'r mab a ddywedodd y pryd hyny,
Dy siwrnai di sydd ar ddibenu,
Cyn pen ychydig o funudau,
Ti gei dy symud o'r byd yma.

11 Yr oedd hi'n begio arno'n galed,
O peidiwch gwneuthur i mi niwed,
Peidiwch bod yn lleiddiad imi,
Yr wyf yn deisyf er mwyn Iesu.

12 Ond ni wrandawodd ar ei geiriau,
A chyllell lem fe a gymerai,
Ac fe'i brathodd rhwng ei dwyfron,
Nes tywallt gwaed yr eneth wirion.

13 Ei phen oddiar ei chorph a dorai,
Ac yn y ddaear fe a'i claddai,
Yr oedd yn meddwl na ddai'r lladdfa,
Erchyll yma byth i'r gole'.

14 Fe aeth adref y pryd hyny,
Gofynai am ganwyll i fyn'd i'w wely,
A'i chwaer a'i holai ef yn galed,
Beth yw'r gwaed sydd hyd eich dillad.

15 A'r esgus gym'rodd ef pryd hyny,
Fy nhrwyn sydd wedi bod yn gwaedu,
Meddylia hon mae gwir a ddyweda,
Ond er hyn yr oedd hi yn ameu.

16 Un William Collins a ddaeth heibio
Y lle buasai hwn yn mwrdro,
Yr oedd dychryn ar ei galon,
Wrth wel'd y gwaed yn llynau cochion.

17 Efe a redodd yn ei ddychryn,
I chwilio am bobl yno'n sydyn,
A hwy ddoent yno ar fyr amser,
A'r corph a godent hwy o'r ddaear.

18 Yn awr anfonwyd am y *Coroner*,
A'r *Doctor* hefyd yr un amser,
A hwnw a'i hagorai'n fuan,
Ac yn ei chroth 'roedd baban bychan.

19 Yr oedd amheuaeth yn mhlith
dynion,
Mae'i chariad wnaeth y weithred creulon,
Ac i'r carchar cedd ei gyrchu,
Nes y delai dydd i'w farnu.

20 Pan yr ydoedd yn y carchar,
Fe ddywedodd wrth y *Jailer*,
Yn awr rwy'n gorfod dyodde'r gyfraith,
Yr wyf yn euog o'r farwolaeth.

21 Boed hyn yn rhybudd ini'n wastad,
Na byddom byth i neb yn lleiddiad,
Rhag ofn mae'n uffern bydd ein trigfa,
Pan ein galwer o'r byd yma.

22 Rhodiwn bawb yn gyffredinol,
Y ffordd sy'n arwain i'r wlad nefol,
Fel y caffom pan ddel angeu,
Fyn'd i cwmp'ni y glan seintiau.

DIWEDD.

---

*E. Griffiths, Argraffydd, Abertawy.*